**Gwahoddiad i dendro ar gyfer Gwasanaethau Archwilio Mewnol S4C**

| | |
|---|---|
| Cyhoeddwyd: | 16 Rhagfyr 2021 |
| Dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau am eglurhad: | 07 Ionawr 2022, 12:00 yp |
| Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno tendrau: | 21 Ionawr 2022, 12:00 yp |

**Cyflwyniad**

Mae'r ddogfen hon yn gwahodd ceisiadau gan gwmnïau a sefydliadau y mae ganddynt ddiddordeb mewn cyflenwi ac sy'n gallu cyflenwi **gwasanaethau archwilio mewnol** i S4C, fel y'u disgrifir yn fwy penodol yn y tudalennau nesaf.

Mae'r Gwahoddiad i Dendro ("GID") yma yn cynnwys y rhannau canlynol:

| | |
|---|---|
| Rhan 1 | Gwybodaeth Gefndirol a Rheolaeth Fewnol |
| Rhan 2 | Gwybodaeth Bellach am y Cytundeb |
| Rhan 3 | Gwybodaeth i'w Chynnwys yn yr Ymateb i'r Tendr |
| Rhan 4 | Amlinelliad y Broses Dendro a Cheisiadau am Wybodaeth Bellach |
| Rhan 5 | Meini Prawf Gwerthuso a Gwobrwyo'r Cytundeb |
| Rhan 6 | Nodiadau Cyfreithiol |

| | |
|---|---|
| Atodiad 1 | Rheolau Sefydlog Bwrdd S4C |
| Atodiad 2 | Matrics Gwerthuso |
| Atodiad 3 | Ffurflen Wybodaeth Sylfaenol |
| Atodiad 4 | Strwythur Corfforaethol S4C |

**Darllenwch y Gwahoddiad i Dendro yma yn ofalus. Mae'n bosib na fydd ymatebion i'r tendr nad ydynt yn cydymffurfio â gofynion y Gwahoddiad i Dendro yma yn cael eu hystyried.**

**Mae'r broses dendr yma, gan gynnwys y Gwahoddiad i Dendr yma, yn ddarostyngedig i'r Nodiadau Cyfreithiol a nodir yn Rhan 6.**

**Rhan 1 Gwybodaeth Gefndirol a Rheolaeth Fewnol**

## 1.1 S4C

S4C yw'r unig sianel deledu Cymraeg yn y byd ac un o'r pum darlledwr teledu gwasanaeth cyhoeddus yn y DU. Mae'n awdurdod darlledu annibynnol a sefydlwyd o dan Ddeddf Darlledu 1981, ac mae'n cael ei rheoleiddio gan Ddeddf Gyfathrebu 2003 a'r Ddeddf Darlledu 1990.

Mae S4C yn darparu ystod eang o raglenni amrywiol o safon uchel. Mae'r sianel yn darlledu dros 115 awr o raglenni Cymraeg bob wythnos. Mae rhaglenni S4C ar gael i'w gwylio'n fyw ar wefan S4C trwy fandllydan a'r gwasanaeth gwylio ar alw ar wefan s4c.cymru, trwy iPlayer y BBC ac ar YouView, teledu clyfar, Sky, Freeview a nifer o blatfformau eraill.

O Ebrill 2022 ymlaen, bydd cyllid cyhoeddus S4C yn dod o ffi'r drwydded – gyda'r Adran Dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (ADdCCh) yn pennu gwerth y cyllid hwnnw. Mae S4C yn cynhyrchu incwm ychwanegol drwy weithgareddau masnachol a hysbysebu. Yn ogystal mae'r BBC yn darparu 10 awr o raglenni Cymraeg i S4C wedi ei ariannu gyfran y BBC o ffi'r drwydded.

Am ragor o wybodaeth am S4C, fe'ch cyfeirir at Adroddiad Blynyddol 2020/21, sydd ar gael ar wefan S4C (s4c.cymru), neu cysylltwch â Geraint Pugh, Ysgrifennydd Bwrdd S4C (drwy cwestiynautender@s4c.cymru).

## 1.2 Gwybodaeth am Gefndir y Cytundeb

Cynigir y tendr hwn gan Bwyllgor Archwilio a Materion Cyffredinol Bwrdd S4C ("y Pwyllgor").

Yn dilyn yr adolygiad annibynnol o S4C a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2018, mae S4C wedi rhoi mewn lle drefniadau llywodraethiant newydd er mwyn gweithredu gan ddilyn model Bwrdd Unedol, yn lle trefn flaenorol y bwrdd anweithredol a elwid yn Awdurdod S4C. Ceir rhagor o wybodaeth am y trefniadau llywodraethiant hyn yn Rheolau Sefydlog Bwrdd S4C yn Atodiad 1.

Gellid dod o hyd i fwy o wybodaeth am y cytundeb ac anghenion S4C yn Rhan 2.

Ceir rhagor o wybodaeth am ddyletswyddau, strwythur a pherfformiad S4C yn yr Adroddiad Blynyddol a Datganiad Ariannol S4C ynghyd ag amrediad o ddeunyddiau corfforaethol eraill ar wefan S4C.

## 1.3 Rheolaeth Fewnol

Mae Bwrdd S4C wedi ymrwymo i'r safonau uchaf o reolaeth gorfforaethol, ac wedi sefydlu fframwaith o reolaeth, yn unol â gofynion Côd Llywodraethiant Corfforaethol y DU. Mae Bwrdd S4C yn cynnal asesiad blynyddol o hyfywedd busnesau S4C. Mae hefyd yn paratoi datganiad sicrwydd blynyddol ar gyfer y Pwyllgor Archwilio'r ADdCCh. Yn ogystal mae'n orfodaeth ar Fwrdd S4C i roi mewn lle drefniadau i sicrhau bod yr archwiliad mewnol yn cydymffurfio gyda safonau'r llywodraeth a nodir yn y dogfennau "Government Internal Audit Manual" a "Public Sector Internal Audit Standards".

Mae'r prif elfennau yn cynnwys:

i. **Amgylchedd Rheoli** – fframwaith trefniadol sydd â chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n eglur ar gyfer rheolaeth fewnol. Nodir y prif systemau rheoli yn Llawlyfr Trefn Rheolaeth Fewnol S4C.

ii. **Adroddiadau Ariannol** – ceir system gynhwysfawr er mwyn adrodd ar reolaeth gan gynnwys paratoi cyllidebau blynyddol yn ôl canolfan gost sy'n seiliedig ar swm o sero, yr adroddir arnynt wedyn yn chwarterol gan gymharu'r canlyniadau gyda'r gyllideb a chan archwilio amrywiadau sylweddol. Paratoir rhagolygon o'r ymrwymiadau gan ddiweddaru'n rheolaidd drwy gydol y flwyddyn.

iii. **Safon ac Integriti Personél** - bydd staff profiadol sydd â chymwysterau priodol yn cymryd cyfrifoldeb am yr holl swyddogaethau busnes allweddol. Mae'r system asesu staff yn caniatáu monitro safonau perfformiad unigol.

iv. **Rheolaeth Weithredu** – bydd pob canolfan gost yn cynnal rheolaeth a threfn ariannol sy'n briodol i'w hamgylchedd busnes ei hun gan gydymffurfio â'r safonau a chanllawiau cyffredinol a gymeradwyir gan y Bwrdd.

v. **Monitro** - cyflwynir yr adroddiadau ar y system reoli ariannol fewnol gan y rheolwyr a'r swyddogaeth archwilio fewnol, yn y lle cyntaf i Bwyllgor Archwilio a Materion Cyffredinol Bwrdd S4C. Bydd yr archwilwyr yn arolygu'r drefn reoli i'r graddau sydd eu hangen ar gyfer mynegi eu barn archwilio gan adrodd am unrhyw ddiffygion sy'n codi yn ystod eu gwaith.

Rhaid i'r Pwyllgor ymfodloni ar bob mater sy'n ymwneud â phriodoldeb a threfn ariannol a thrafod gyda'r archwilwyr ynghylch unrhyw faterion sy'n achosi pryder sy'n codi o'u harchwiliad.

**Rhan 2 Gwybodaeth Bellach am y Cytundeb**

**2.1 Cwmpas y cytundeb**

Bydd ystod y gwaith o dan gytundeb y gwasanaeth yn cynnwys archwiliad o'r cofnodion a phrosesau cyfrifo ac eraill o flynyddoedd ariannol ar gyfer cyfnod tair blynedd cychwynnol o'r flwyddyn adrodd 2022/23, yn unol â rhaglen waith a gytunir gyda'r Pwyllgor. Mae gofynion pellach ynghylch y gwasanaeth i'w gweld yn Rhan 3 isod.

Mae S4C yn amcangyfrif y byddai nifer y diwrnodau sydd eu hangen i gyflawni'r gwasanaeth (fel y nodir yn y GID hwn a Rhan 3 yn arbennig) tua 25 diwrnod y flwyddyn (gan gynnwys cynllunio a gweinyddu).

Pe bai'r Tendrwr yn teimlo bod angen mwy o ddyddiau arnynt i gyflawni'r gwasanaeth bydd modd iddynt nodi'r mater yn eu cais, ac yn ystod y cyfweliadau, os ydyn yn derbyn gwahoddiad i gyfweliad. Ni fyddai hawl gan y Tendrwr llwyddiannus i ymgymryd ag unrhyw waith uwchlaw'r nifer o ddyddiau a gytunwyd heb ganiatâd S4C ymlaen llaw, gan gynnwys cytuno ar unrhyw dâl ychwanegol a allai fod yn ddyledus. Ni ellir disgwyl yr un gyfradd â'r diwrnodau a arfarnwyd yn wreiddiol.

Mae'r rhan fwyaf o'r dogfennau sy'n ymwneud â'r gwasanaeth ar gael yn Gymraeg yn unig, felly bydd angen i'r Tendrwyr sicrhau a dangos gallu ieithyddol digonol yn eu cais.

Mae dyletswydd ar S4C i sicrhau nad oes unrhyw gymhorthdal uniongyrchol nac anuniongyrchol ar gyfer ei gweithgareddau masnachol yn dod o Gronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus. Mae dyletswydd hefyd i ymdrin ar wahân â'r Gronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus a'r Gronfa Gyffredinol. Dylai ceisiadau ddangos cynlluniau'r Tendrwr i adlewyrchu'r gofynion hyn o fewn y swyddogaeth archwilio. Mae'r Strwythur Corfforaethol a geir yn Atodiad 4 yn adlewyrchu arwahanrwydd y ddwy gronfa ac yn dangos yr is-gwmnïau sy'n eistedd o dan y Gronfa Gyffredinol.

Disgwylir i'r Tendrwr llwyddiannus wneud asesiad risg ar y cychwyn ac i lunio cynllun archwilio tair blynedd newydd yn ystod blwyddyn gyntaf y cytundeb.

Dylai'r Tendrwr esbonio sut y bydd yn cyfathrebu gyda'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, fel archwilwyr allanol S4C, ac i gadarnhau y bydd yn caniatáu mynediad dilyffethair iddynt i'w papurau gweithiol.

**2.2 Telerau a Hyd y Cytundeb**

Mae S4C yn cynnig penodiad tair blynedd cychwynnol i'r Tendrwr llwyddiannus, gyda'r posibilrwydd o gytuno hyd at ddau estyniad blwyddyn o hyd i'r penodiad. Bydd S4C yn adolygu'r cytundeb a pherfformiad y Tendrwr llwyddiannus ar ôl y flwyddyn gyntaf ac mae'n cadw'r hawl i derfynu'r cytundeb ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf yn dilyn adolygiad o'r fath. Bydd yr adolygiad hwn yn ychwanegol i unrhyw adolygiadau rheolaidd a ddarparir yn y cytundeb.

**2.3 Gwarant Rhiant Cwmni a Chonsortia**

Noder efallai y bydd S4C yn gofyn i'r Tendrwr llwyddiannus ddarparu gwarantau gan riant gwmni. Os yw consortiwm yn cynnig tendr a bod ei ymateb maes o law yn llwyddiannus gall y bydd ar S4C eisiau: (i) i'r consortiwm ffurfio endid cyfreithiol cyn arwyddo cytundeb; a/neu (ii) cyd-atebolrwydd ac atebolrwydd unigol holl aelodau'r consortiwm; a/neu (iii) gwarantau a/neu ymrwymiadau gan rai neu'r oll o aelodau'r consortiwm ar ran rhai neu'r oll o aelodau eraill y consortiwm.

## Rhan 3 Gwybodaeth i’w Chynnwys yn yr Ymateb i’r Tendr

### 3.1 Gwybodaeth Angenrheidiol

Dylai’r Tendrwyr ddarparu’r wybodaeth ganlynol fel rhan o’r ymateb tendro er mwyn dangos yn fanwl sut y bodlonir gofynion S4C:

- **Ffurflen Wybodaeth Sylfaenol** yn y ffurf y’i gosodir yn Atodiad 3.

- **Datganiad Ysgrifenedig** yn nodi methodoleg i ddarparu’r gwasanaeth. Dylai’r Tendrwr nodi:

  i. **Cymwysiadau perthnasol ac arbenigedd proffesiynol -** manylion y cymwysiadau perthnasol mae’r Tendrwr yn meddu arnynt, a dangos ei bod yn berchen ar yr arbenigedd proffesiynol i ddarparu’r swyddogaeth archwilio y cyfeirir ati yn y GID hwn.

  ii. **profiad o ddarparu gwasanaethau tebyg -** manylion profiad o ddarparu gwasanaethau tebyg i gleientiaid perthnasol yn y gorffennol. Wrth ddarparu manylion cleientiaid tebyg mae’r Tendrwr wedi gweithio gyda nhw dylid cynnwys manylion ystod y gwasanaethau a ddarparwyd, y dyddiad(au) y darparwyd y gwasanaethau a gwerth y cytundeb. Dylai’r Tendrwr gadarnhau a chafodd unrhyw gontract ar gyfer darparu gwasanaethau archwilio ei derfynu am berfformiad gwael neu a hawliwyd unrhyw iawndal yn ei erbyn dan unrhyw gontract o’r fath yn y tair blynedd diwethaf.

  iii. **Dealltwriaeth o Anghenion S4C** – barn y Tendrwr ar y materion ariannol allweddol ac eraill sy'n wynebu S4C, eu goblygiadau i'r broses archwilio, a'r manteision y gallai eu cynnig i'r gwasanaethau archwilio ar gyfer S4C. Dylai’r Tendrwr nodi'r risgiau strategol allweddol y credai sy'n berthnasol i fusnes S4C, a sut y bydd ei gynnig ar gyfer gwasanaethau archwilio mewnol yn ychwanegu gwerth at y broses o reoli a lliniaru’r risgiau hyn. Bydd disgwyl i’r Tendrwyr ddangos gwerthfawrogiad o’r rôl y mae archwilio yn chwarae i sefydliad fel S4C a’i statws arbennig fel sefydliad a ariannir yn gyhoeddus, ond sydd hefyd wedi’i awdurdodi i gynhyrchu incwm drwy weithgareddau masnachol penodol.

  iv. **Dull yr Archwilio** - cynlluniau manwl y Tendrwyr ar gyfer ymgymryd â’r gwaith hwn gan gofio natur cyllido S4C ac ymrwymiad y Bwrdd i arddel rheolaeth gorfforaethol o’r safon uchaf.

     Dylid cynnwys y canlynol:

     - awgrym o asesiad anghenion archwilio, ynghyd ag esboniad o’r prosesau a ddefnyddiwyd i benderfynu ar yr asesiad anghenion;

     - disgrifiad o ddull adrodd arfaethedig y Tendrwr gan gynnwys esboniad o sut fydd y Tendrwr yn sicrhau prydlondeb ac effeithiolrwydd adroddiadau a ddarperir i S4C;

     - disgrifiad o'r gweithdrefnau a ddefnyddir i sicrhau ansawdd y gwaith, gan gynnwys esboniad o unrhyw dechnegau archwilio cyfrifiadurol / yn seiliedig ar ddeallusrwydd artiffisial a ddefnyddir;

     - esboniad o sut fydd y Tendrwr yn gwahanu’r cronfeydd cyhoeddus a chyffredinol; ac

     - cynllun dangosol ar gyfer y flwyddyn gyntaf yn cynnwys y canlynol:

a. y nifer o ddyddiau gwaith mae'r Tendrwr yn credu sy'n addas;

b. disgrifiad o sut y bydd y Tendrwr yn rheoli'r broses drosglwyddo o'r archwilwyr presennol (os yn briodol); a

c. disgrifiad o sut bydd y Tendrwr yn sicrhau partneriaeth weithiol effeithiol â'r archwiliwyr allanol.

v. **Gallu Ieithyddol -** Bydd llawer iawn o'r ddogfennaeth sy'n ymwneud â'r swyddogaeth archwilio ar gael yn y Gymraeg yn unig. Dylai'r Tendrwyr nodi sut y byddant yn sicrhau gallu ieithyddol digonol yn nhermau darllen dogfennau ac adroddiadau yn y Gymraeg. Fodd bynnag, bydd adroddiadau ysgrifenedig a/neu ar lafar yn y Saesneg i'r Pwyllgor gan yr archwilyr mewnol yn dderbyniol.

vi. **Staffio ac argaeledd eich prif gyswllt** – manylion y partner(iaid), rheolwr(wyr) a staff allweddol arall i'w haseinio i'r cytundeb. Dylid nodi unrhyw brofiad uniongyrchol, perthnasol ar aseiniad tebyg, yr amser y bydd yr unigolyn yn neilltuo i'r aseiniadau hyn a chynllunio olynu a chamau i sicrhau dilyniant staffio. Dylid nodi sut bydd y Tendrwyr yn sicrhau argaeledd eu prif gyswllt yn ystod cyfnod y cytundeb.

vii. **Ffioedd** – dylai Tendrwyr ddarparu ffi ar gyfer y flwyddyn gyntaf yn unol â'r cynllun dangosol a ddarparwyd o dan baragraff ch) uchod, gan nodi graddfeydd ffioedd dyddiol yr ystod o staff fydd yn gyfrifol am ddarparu'r gwasanaeth, neu'r gyfradd ddyddiol 'gyfunol' a fydd yn berthnasol. Rhaid i'r cyfraddau a ddarparir fod yn berthnasol ar gyfer cyfnod llawn y cytundeb heb yr angen i ail-gytuno ffioedd newydd bob blwyddyn (gan gynnwys mewn perthynas ag unrhyw estyniadau a gytunir i'r cytundeb wedi'r tair blynedd cychwynnol). Dylid cynnwys cerdyn cyfraddau safonol ar gyfer unrhyw waith ymylol neu ychwanegol nad yw'n rhan o'r prif waith archwilio.

viii **Cytundeb** – copi o'r telerau ac amodau safonol hoffai'r Tendrwyr eu defnyddio fel sail ar gyfer eu cytundeb gyda S4C pe byddant yn ennill y cytundeb. Sylwer bod S4C yn disgwyl i'r telerau hyn ymgorffori'r cymalau a'r egwyddorion yn **Rhan 6.3 - Nodiadau Cyfreithiol** fel isafswm.

Dylid nodi mai at bwrpasau gwerthuso y mae S4C yn gofyn am y telerau ac amodau hyn yn unig. Mae S4C yn cadw'r hawl i negydu telerau'r cytundeb terfynol gyda'r Tendrwr llwyddiannus a/neu i gynnig cytundeb ar yr amod ei bod yn cytuno i newid rhai o'r telerau ac amodau safonol. Ni fydd cynnig o gytundeb gan S4C mewn unrhyw fodd yn cynnwys cytundeb dealledig i'r telerau ac amodau safonol. Os na fydd y cytundeb yn cael ei gwblhau yn foddhaol ar ôl dyfarnu'r tendr, mae S4C yn cadw'r hawl i ddyfarnu'r tendr i Dendrwr arall neu i ail-dendro'r cytundeb. I'r diben hwn, rhaid i ymatebion tendro barhau i fod yn agored am 3 mis o'r dyddiad a roddir ar gyfer cyflwyno ymatebion tendro.

Gall y Tendrwyr gynnwys gwybodaeth ychwanegol pan fo hynny'n berthnasol i'w hymatebion tendro, ond ni ddylai ymatebion tendro gynnwys unrhyw wybodaeth amherthnasol nas gofynnwyd amdani yn benodol neu sy'n ofynnol yn ôl y GID hwn gan gynnwys, er enghraifft, llenyddiaeth at ddibenion gwerthu ac amodau masnachu safonol.

Os bydd y Tendrwr (neu, yn achos ymateb tendro a gyflwynir gan gonsortiwm, unrhyw aelod o'r consortiwm), ar unrhyw adeg, yn dod yn ymwybodol o'r ffaith bod unrhyw wybodaeth y mae (neu, yn achos ymateb tendro a gyflwynir gan gonsortiwm, unrhyw aelod o'r consortiwm) wedi ei ddarparu i S4C mewn cysylltiad â'r broses dendro hon yn anghyflawn, yn anghywir neu'n gamarweiniol mewn unrhyw ffordd neu heb fod yn gywir mwyach, rhaid hysbysu S4C o hyn ar unwaith.

### 3.2 Uchafswm Hyd y Tendr

Dylai Tendrwyr geisio bod yn gryno wrth ddrafftio eu hymatebion i'r GID yma. Ni ddylai ymateb i'r GID yma fod yn hirach na 5000 gair (ac eithrio'r Ffurflen Wybodaeth Sylfaenol). Mae S4C yn cadw'r hawl i eithrio o'r broses dendro unrhyw rannau o ymatebion sy'n hwy na'r uchafswm 500 gair.

**Rhan 4 Amlinelliad y Broses Dendro a Cheisiadau am Wybodaeth Bellach**

## 4.1 Amlinelliad y Broses Dendro

Bydd y broses dendro hon yn cynnwys y camau canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| Cam 1 | Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau am wybodaeth bellach | 12:00 yp, 07 Ionawr 2022 |
| Cam 2 | Darparu ymatebion i'r ceisiadau am wybodaeth bellach | 11 Ionawr 2022 |
| Cam 3 | Dyddiad cau ar gyfer derbyn yr ymatebion tendro ysgrifenedig | 12:00 yp, 21 Ionawr 2022 |
| Cam 4 | Dechrau ar y gwaith o werthuso ymatebion tendr | 24 Ionawr 2022* |
| Cam 5 | Cyfweliadau (os yn berthnasol) | 10 Chwefror 2022* |
| Cam 7 | Cymeradwyaeth ffurfiol o'r penodiad / canlyniad y tendr gan y Pwyllgor Archwilio a Materion Cyffredinol | 16 Chwefror 2022 |
| Cam 7 | Hysbysiad o ganlyniad terfynol y tendr, a cychwyn y cyfnod 'safiad stond' | 17 Chwefror 2022* |

Noder y gellid newid y dyddiadau sydd wedi eu marcio â *.

## 4.2 Cyflwyno Ymatebion Tendro

Gofynnir i Dendrwyr gyflwyno ymateb tendro yn Gymraeg neu yn Saesneg yn unol â gofynion y GID hwn, ar ffurf electronig, erbyn y dyddiad cau ar gyfer cael ymatebion tendro a nodir yn Rhan 4.1 uchod.

Dylid nodi **"Tendr Archwilio Mewnol S4C"** yn eglur ar ymatebion tendro a'u hanfon mewn neges e-bost at:

E-bost: tendrarchwilio@s4c.cymru

Caniateir i dendrau gael eu cyflwyno yn y Gymraeg neu yn Saesneg. Ni fydd tendr a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg.

NI FYDD UNRHYW YMATEBION TENDRO A FYDD YN CAEL EU CYFLWYNO AR ÔL Y DYDDIAD CAU AR GYFER CAEL YMATEBION TENDRO A NODIR YN RHAN 4.1 UCHOD, NEU Y DERBYNNIR GAN S4C I UNRHYW GYFEIRIAD AC EITHRIO'R CYFEIRIAD A NODIR UCHOD, YN CAEL EU HYSTYRIED A CHAIFF UNRHYW YMATEBION TENDRO O'R FATH EU HEPGOR O'R BROSES DENDRO HON.

Ni fydd S4C yn gyfrifol am unrhyw ddiffygion yn y system ddosbarthu neu am unrhyw ymatebion tendro a fydd yn mynd ar goll, a fydd yn cael eu hoedi neu a fydd yn ddiffygiol. Mae Tendrwyr yn gyfrifol am sicrhau bod eu hymatebion tendro (ac unrhyw atodiadau) yn cael eu paratoi mewn da bryd (gan ystyried y posibilrwydd y bydd staff yn absennol neu y gallai methiannau technegol godi) a'u bod yn cael eu cyflwyno cyn y dyddiad cau ar gyfer cael ymatebion tendro, a nodir yn Rhan 4.1 uchod.

Sylwer mai 20Mb yw'r uchafswm o ran maint negeseuon e-bost y gall S4C eu derbyn ac mai'r ffurfiau a ganiateir ar gyfer ffeiliau yw Word, Excel, PDF a Jpeg. Mae'r ffurfiau hyn yn dderbyniol fel Ffeiliau *Zip.* Dylai Tendrwyr fod yn ymwybodol y gallai eu ISP (Darparwr Gwasanaethau Rhyngrwyd) eu hunain bennu cyfyngiadau is o ran maint negeseuon e-bost ac felly, fe'u cynghorir i holi eu ISP neu eu hadran TG eu hunain ynghylch unrhyw gyfyngiadau ar faint negeseuon ymhell cyn y dyddiad anfon a'r dyddiad cau.

Ni fernir bod prawf o anfon deunydd yn cyfateb â phrawf bod deunydd wedi cyrraedd, a chynghorir Tendrwyr i geisio cydnabyddiaeth ar ffurf neges e-bost ar wahân bod y deunydd wedi cyrraedd.

### 4.3 Ystyried Ymatebion Tendro

Bydd S4C yn ystyried yr holl ymatebion tendro y derbynnir gan S4C sydd yn cydymffurfio â'r gofynion a nodir yn y GID hwn a'r holl wybodaeth a ddarparir mewn cyfweliad (os yn berthnasol) yn unol â'r weithdrefn a'r meini prawf a nodir yn Rhan 5 isod. Bydd dyfarnu cytundeb yn cael ei seilio ar asesiad S4C o'r ymateb tendro sydd yn derbyn y sgôr uchaf, yn unol â'r meini prawf a nodir yn Rhan 5 isod. Hysbysir pob Tendrwr a gyflwynodd ymateb i'r GID o ganlyniad gwaith gwerthuso S4C mewn neges e-bost. Gweler Rhan 5.4 ymhellach isod.

### 4.4 Esbonio Ymatebion Tendro

Efallai y bydd S4C yn gofyn i Dendrwyr ddarparu gwybodaeth bellach a/neu esboniad ynghylch unrhyw faterion yn eu hymatebion tendro. Fodd bynnag, y disgwyliad ydy fod Tendrwyr yn cynnwys unrhyw wybodaeth a/neu esboniadau y maent am i S4C eu hystyried yn eu hymateb.

Efallai y bydd S4C yn gofyn i Dendrwyr fynychu cyfweliadau dros Zoom er mwyn gwneud cyflwyniad byr ac esbonio manylion a nodir yn y ddogfen ymateb tendro.

### 4.5 Ceisiadau am Wybodaeth Bellach

Rhaid gwneud pob math o gyswllt mewn perthynas â'r broses dendro hon, gan gynnwys unrhyw geisiadau am wybodaeth bellach a/neu arweiniad wrth gwblhau ymatebion tendro, ar ffurf neges e-bost i S4C, a'u hanfon at cwestiynautendr@s4c.cymru

Ni ddylai Tendrwyr drafod neu ofyn am wybodaeth ynghylch y broses dendro hon mewn unrhyw ffordd gan unrhyw swyddog, cyflogai, asiant neu gynghorwr arall S4C.

Anogir Tendrwyr i nodi unrhyw arweiniad a/neu wybodaeth bellach y mae'n bosib y bydd ei hangen arnynt mewn cysylltiad â'r broses dendro hon, cyn gynted ag y bo modd. Y dyddiad cau er mwyn cyflwyno ceisiadau am wybodaeth bellach a/neu arweiniad yw **12:00 yp 07 Ionawr 2022**. Ni ystyrir unrhyw geisiadau a fydd yn cael eu gwneud ar ôl y dyddiad cau hwn. Bydd S4C yn ceisio delio â'r holl geisiadau a wneir cyn y dyddiad cau hwn mewn ffordd brydlon.

Er mwyn sicrhau tegwch a thryloywder, sylwer y bydd yr holl geisiadau am wybodaeth bellach a/neu arweiniad ynghylch y broses dendro hon, ynghyd ag ymatebion S4C i geisiadau o'r fath,

yn cael eu datgelu i'r holl Dendrwyr. Bydd datgeliadau o'r fath yn cael eu gwneud gan eu postio ar wefan S4C ar http://www.s4c.cymru/cy/tendrau/

Os bydd Tendrwyr o'r farn bod unrhyw gais am wybodaeth bellach a/neu arweiniad y byddant yn ei wneud yn sensitif ar lefel fasnachol, rhaid iddynt nodi "sensitif yn fasnachol" yn eglur ar y cais, a nodi'r rhesymau pam eu bod o'r farn ei bod yn sensitif ar lefel fasnachol. Sylwer, fodd bynnag, y bydd S4C yn penderfynu, yn unol â'i disgresiwn llwyr, a yw'n ystyried bod unrhyw gais o'r fath yn sensitif ar lefel fasnachol. Os bydd S4C yn penderfynu bod cais yn sensitif ar lefel fasnachol, ni fydd S4C yn datgelu'r cais na'i hymateb i gais o'r fath, i Dendrwyr eraill. Os bydd S4C yn penderfynu nad yw cais yn sensitif ar lefel fasnachol, bydd yn hysbysu'r Tendrwr o hyn. Os bydd y Tendrwr yn cytuno nad yw'r cais yn sensitif ar lefel fasnachol, bydd S4C yn ymateb i'r cais a bydd ganddi'r hawl i ddatgelu'r cais, a'i hymateb iddo, i'r holl Dendrwyr. Os na fydd y Tendrwr yn cytuno nad yw'r cais yn sensitif ar lefel fasnachol neu os na fydd yn hysbysu S4C a yw'n cytuno cyn pen un diwrnod gwaith, ystyrir bod y cais yn cael ei dynnu yn ôl ac ni fydd S4C yn ymateb iddo. Ni fydd unrhyw beth yn y paragraff hwn yn cael ei ddehongli fel rhywbeth sy'n cyfyngu ar allu S4C i ddatgelu unrhyw wybodaeth i unrhyw unigolyn mewn unrhyw ffordd, er mwyn cydymffurfio â'i hymrwymiadau rhyddid gwybodaeth, fel yr amlinellir yn Rhan 6.6 isod.

Bernir bod unrhyw geisiadau ac unrhyw ymatebion iddynt a ddatgelir i'r holl Dendrwyr, yn rhan o'r GID hwn.

## Rhan 5 Meini Prawf Gwerthuso a Gwobrwyo'r Cytundeb

### 5.1 Profi Cydymffurfiaeth

Cyn cychwyn ar y broses ffurfiol o werthuso'r ymatebion tendro, bydd S4C yn archwilio'r ymatebion tendro er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion y GID yn llawn. Gellid gwrthod ymatebion tendro nad ydynt yn cydymffurfio. Bydd S4C yn gwerthuso ymatebion tendro sy'n cydymffurfio yn llawn, yn unol â'r darpariaethau a nodir yn y rhan hwn sef Rhan 5.

### 5.2 Gwerthuso

Bydd Panel wedi ei benodi gan Bwyllgor Archwilio a Materion Cyffredinol S4C yn gwerthuso ac yn sgorio'r ymatebion i'r GID yma ac unrhyw wybodaeth yn deillio o'r cyfweliad os yn berthnasol, yn unol â'r meini prawf a'r pwysoliadau isod.

Cyflwynir argymhelliad y Panel i'r Pwyllgor Archwilio a Materion Cyffredinol er mwyn dyfarnu'r cytundeb yn ffurfiol, a bydd y dyfarniad ar sail y tendr sydd yn derbyn y sgôr uchaf.

**Cwestiynau Cydymffurfiaeth:**

| | **Meini Prawf Gwerthuso** | **Dull Gwerthuso** |
|---|---|---|
| **Ffurflen Wybodaeth Sylfaenol:** | | |
| Adran 1 | Gwybodaeth am y Tendrwr | Nid yw'n cael ei sgorio, ond mae'n rhaid i'r rhan gael ei chwblhau |
| Adran 2 | Seiliau dros Waharddiad Gorfodol | **Derbyniol** – Wedi'i chwblhau gyda phob ymateb yn gadarnhaol neu'n negyddol gyda thystiolaeth o gamau adferol derbyniol<br>**Annerbyniol** – Heb ei chwblhau neu unrhyw un neu fwy o'r ymatebion negyddol heb dystiolaeth o gamau adferol derbyniol. |
| Adran 3 | Seiliau dros Waharddiad yn ôl Disgresiwn | **Derbyniol** – Wedi'i chwblhau gyda phob ymateb yn gadarnhaol neu'n negyddol gyda thystiolaeth o gamau adferol derbyniol<br>**Annerbyniol** – Heb ei chwblhau neu unrhyw un neu fwy o'r ymatebion negyddol heb dystiolaeth o gamau adferol derbyniol. |
| Adran 4 | Modiwlau Ychwanegol Yswiriant | **Derbyniol** – Wedi'i chwblhau gyda phob ymateb yn gadarnhaol<br>**Annerbyniol** – Heb ei chwblhau neu unrhyw un neu fwy o'r ymatebion yn negyddol. |

| | | |
|---|---|---|
| | Cydraddoldeb | **Derbyniol** – Wedi'i chwblhau gyda phob ymateb i C1 a C2 yn negyddol neu'n gadarnhaol gyda thystiolaeth o gamau adferol derbyniol<br>**Annerbyniol** – Heb ei chwblhau neu ymateb i C1 a/neu C2 yn gadarnhaol heb dystiolaeth o gamau adferol derbyniol. |
| | Rheoli Amgylcheddol | **Derbyniol** – Wedi'i chwblhau gyda phob ymateb i C1 yn negyddol neu'n gadarnhaol gyda thystiolaeth o gamau adferol derbyniol<br>**Annerbyniol** – Heb ei chwblhau neu ymateb i C1 yn gadarnhaol heb dystiolaeth o gamau adferol derbyniol. |
| | Iechyd a Diogelwch | **Derbyniol** – Hunanardystio wedi'i gwblhau a'r ymateb i C2 yn negyddol neu'n gadarnhaol gyda thystiolaeth o gamau adferol derbyniol<br>**Annerbyniol** – Hunanardystio heb ei gwblhau neu ymateb i C2 yn gadarnhaol heb dystiolaeth o gamau adferol derbyniol. |
| Adran 5 | Datganiad | Nid yw'n cael ei sgorio, ond mae'n rhaid i'r rhan hon gael ei chwblhau. |

**Cwestiynau ansoddol:**

| Meini Prawf Dyfarnu | Gwybodaeth i'w Asesu | Cwestiynau Gwerthuso (Sut fydd S4C yn gwerthuso'r ymateb) | Pwysoliad |
|---|---|---|---|
| **Datganiad Ysgrifenedig:** | | | |
| Cymwysiadau perthnasol, arbenigedd proffesiynol a phrofiad o ddarparu gwasanaeth tebyg | Disgrifiad o gymwysiadau perthnasol ac arbenigedd proffesiynol y Tendrwr.<br><br>Manylion o brofiad y Tendrwr o ddarparu | Ydi'r Tendrwr wedi dangos fod ganddo'r cymwysiadau perthnasol ac arbenigedd proffesiynol i allu darparu'r gwasanaeth?<br><br>Ydi'r Tendrwr wedi darparu tystiolaeth o hyd at dri cytundeb blaenorol sy'n | 10%<br><br>5% |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gwasanaethau tebyg. | berthnasol i ofynion S4C? Ydy'r cytundebau hynny wedi eu perfformio o fewn y tair blynedd diwethaf? | |
| Dealltwriaeth o anghenion S4C | Disgrifiad o ddealltwriaeth y Tendrwr o'r risgiau strategol sy'n wynebu S4C.<br><br>Disgrifiad o awgrymiadau'r Tendrwr ar gyfer rheoli'r risgiau strategol allweddol sy'n berthnasol i S4C, gan gynnwys sut gall mesurau o'r fath gynorthwyo S4C i sicrhau bod ei gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu darparu yn llwyddiannus yn unol â Fframwaith Mesur Perfformiad S4C | A yw ymateb y Tendrwr yn dangos dealltwriaeth drylwyr o'r risgiau strategol allweddol i fusnes S4C?<br><br>A yw ymateb y Tendrwr yn dangos sut byddai'n ychwanegu gwerth at y broses o reoli a lliniaru'r risgiau hyn a chynorthwyo S4C i sicrhau bod ei gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu darparu yn unol â Fframwaith Mesur Perfformiad S4C? | 7.5%<br><br>7.5% |
| Dull yr archwilio | Awgrym o asesiad anghenion archwilio ynghyd ag esboniad o'r prosesau a ddefnyddwyd i benderfynu ar yr asesiad anghenion.<br><br>Disgrifiad o ddulliau adrodd y Tendrwr.<br><br>Disgrifiad o weithdrefnau'r Tendrwr ar gyfer sicrhau ansawdd. | A yw ymateb y Tendrwr yn dangos bod ganddo brosesau effeithiol ar gyfer adnabod materion archwilio ac ymateb iddynt?<br><br>A yw'r Tendrwr wedi dangos bod ganddo ddull adrodd effeithiol a fydd yn sicrhau prydlondeb ac effeithiolrwydd darpariaeth adroddiadau i S4C?<br><br>A yw ymateb y Tendrwr yn dangos bod ganddo weithdrefnau a thechnegau effeithiol ar gyfer sicrhau ansawdd y gwaith? | 4%<br><br>4%<br><br>4% |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Disgrifiad o sut bydd y Tendrwr yn darparu'r gwasanaeth. | Ydi'r Tendrwr wedi dangos fod ganddo brosesau effeithiol ar gyfer darparu;r gwasanaeth gan gynnwys sut bydd yn gwahanu'r cronfeydd cyhoeddus a chyffredinol? | 4% |
| | Cynllun dangosol ar gyfer y flwyddyn gyntaf. | A yw cynllun dangosol y Tendrwr ar gyfer y flwyddyn gyntaf yn dangos bod ganddo gynlluniau priodol ac effeithiol ar gyfer darparu'r gwasanaeth a chydweithio â thrydydd partion (lle'n berthnasol) yn cynnwys yr archwiliwyr allanol? | 4% |
| Gallu ieithyddol | Disgrifiad o sut bydd y Tendrwr yn darparu gwasanaeth iaith Gymraeg | A yw ymateb y Tendrwr yn dangos bod ganddo staff gyda sgiliau iaith Gymraeg digonol neu brosesau eraill mewn lle er mwyn darparu gwasanaeth iaith Gymraeg? | 10% |
| Staffio ac argaeledd y prif gyswllt | Manylion staff allweddol y Tendrwr i'w haseinio i'r gwasanaethau. | Ydi ymateb y Tendrwr yn dangos bod gan y staff allweddol brofiad perthnasol o ddarparu gwasanaethau tebyg, a bod y Tendrwr yn bwriadu neilltuo amser staff o lefelau gwahanol o brofiad mewn modd priodol i'r gwasanaethau? | 7.5% |
| | | Ydi'r Tendrwr wedi esbonio bod ganddo brosesau effeithiol ar gyfer sicrhau dilyniant staffio | 7.5% |
| Cytundeb | Copi o'r telerau ac amodau safonol yr hoffai'r Tendrwr ddefnyddio fel sail ar gyfer y | Ydi'r telerau ac amodau yn ymgorffori'r cymalau a'r egwyddorion sydd yn | 5% |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | cytundeb ar gyfer y gwasanaethau | ofynnol o dan y nodiadau cyfreithiol yn y GID hwn? | |

Yn Atodiad 2, cynhwysir y matrics sydd yn nodi sut y bydd y wybodaeth sy'n ofynnol yn Rhan 3.1 uchod yn cael ei gwerthuso yn unol â'r meini prawf hyn.

**Gwerthuso'r Ffi**

Er mwyn gwerthuso'r ceisiadau, bydd S4C yn defnyddio'r ffi ar gyfer y flwyddyn gyntaf yn unol â chynllun dangosol y Tendrwyr a ddarparwyd.

Bydd S4C yn gwerthuso'r ffi a ddarparwyd trwy ddefnyddio'r fformiwla canlynol: ffi isaf a ddarparwyd fel rhan o'r tendr wedi ei rannu â'r ffi a ddarparwyd gan y tendrwr dan sylw. Gall S4C eithrio ymatebion sydd wedi darparu ffioedd anarferol o isel. Caiff y ffi ei bwysoli yn ôl **20%.**

## 5.3 Anghymhwyso Ymatebion Tendro/Tendrwyr

Mae S4C yn cadw'r hawl i anghymhwyso ymateb tendro a/neu Dendrwr o'r broses dendro hon ar unrhyw adeg os:

(a) na fydd ymateb tendro yn cydymffurfio ag unrhyw rai o ofynion y GID hwn;

(b) bydd unrhyw wybodaeth a ddarparir i S4C gan y Tendrwr perthnasol (neu, yn achos consortiwm, unrhyw un o'i aelodau), yn anghyflawn, yn anghywir neu'n gamarweiniol mewn unrhyw ffordd, neu os na fydd yn gywir mwyach;

(c) bydd y Tendrwr wedi cynllwynio gydag unrhyw unigolyn (heb gynnwys, pan fo'r Tendrwr yn gonsortiwm, cynllwynio rhwng aelodau'r consortiwm mewn cysylltiad ag ymateb tendro'r consortiwm) mewn perthynas neu mewn cysylltiad gyda'i ymateb tendro neu ymateb tendro unrhyw Dendrwr arall.

Ni fydd y cam o anghymhwyso unrhyw ymateb tendro neu Dendrwr yn amharu ar unrhyw hawliau neu rwymedïau eraill S4C.

## 5.4 Dyfarnu Cytundeb

Yn unol â darpariaethau Rhan 6.1 isod ac ar ôl cwblhau'r gwaith o werthuso'r ymatebion tendro a'r cyfweliadau (os yn berthnasol), bydd S4C yn hysbysu Tendrwr o ganlyniadau'r gwaith gwerthuso ac argymhelliad y Panel Gwerthuso i'r Pwyllgor Archwilio a Materion Cyffredinol ar gyfer dyfarnu'r cytundeb. Ni fydd unrhyw gytundeb yn cael ei ffurfio oni bai a nes bod S4C yn arwyddo'r cytundeb. Ni fydd unrhyw dderbyniad llafar neu ysgrifenedig o unrhyw dendr, neu hysbysiad bod Tendrwr wedi bod yn llwyddiannus, yn gyfystyr â rhwymyn cytundeb.

## Rhan 6 Nodiadau Cyfreithiol

### 6.1 Dim ymrwymiad i gynnig y cytundeb

Ni fydd unrhyw beth yn y GID hwn neu unrhyw gyfathrebu rhwng S4C a'r Tendrwr ynghylch y broses dendro neu'r ymateb tendro yn gyfystyr â chontract i ddarparu unrhyw wasanaeth y rhoddir sylw iddo yn y broses dendro hon, neu warant neu gyflwyniad y bydd unrhyw gontract yn cael ei ddyfarnu neu y gallai unrhyw gontract gael ei ddyfarnu.

Mae S4C yn cadw'r hawl i dynnu yn ôl o a/neu adael a/neu ohirio'r broses dendro hon ar unrhyw adeg, i beidio dyfarnu unrhyw gontract o ganlyniad i'r broses dendro hon, i ychwanegu at, diwygio a/neu egluro amodau a thelerau'r GID hwn a/neu i fynnu bod Tendrwyr yn esbonio eu hymatebion tendro a/neu yn darparu gwybodaeth ychwanegol mewn perthynas ag ef.

### 6.2 Gwrthdaro rhwng Buddiannau

Rhaid i bob Tendrwr ddarparu manylion os rhagwelir y gallai fod gwrthdaro rhwng buddiannau unigolion sy'n ymwneud â'r cais ac aelodau Bwrdd S4C a/neu staff S4C. Mae hyn er mwyn galluogi S4C i sicrhau ei fod yn neilltuo unigolion i'r Panel Gwerthuso nad oes ganddynt unrhyw berthynas bersonol gydag unrhyw gais.

### 6.3 Cymalau Gofynnol

Dylid nodi bod S4C yn disgwyl i'r telerau hyn ymgorffori'r egwyddorion canlynol fel isafswm:

i. **Gofynion yswiriant**: bydd gan y Tendrwr llwyddiannus yswiriant atebolrwydd cyhoeddus gyda lleiafswm o £10 miliwn, yswiriant atebolrwydd cyflogwr gyda lleiafswm o £10 miliwn, yswiriant indemniad proffesiynol gyda lleiafswm o £5 miliwn ac unrhyw yswiriant perthnasol arall yn unol ag arfer da'r diwydiant;

ii. **Eiddo deallusol**: bydd S4C yn derbyn trwydded ddi-freindal, ddilyffethair am byth o'r holl hawlfraint ac unrhyw hawliau eraill yn unrhyw a phob adroddiad neu ddogfen a gaiff ei greu wrth ddarparu'r gwasanaethau er mwyn galluogi i S4C ddefnyddio'r gwaith hynny fel y mynna am gyfnod llawn yr hawlfraint;

iii. **Gwrthdaro buddiannau**: disgwylir y bydd y Tendrwr llwyddiannus yn gweithredu er lles gorau S4C ar bob adeg ac na fydd yn gwneud unrhyw beth a allai wrthdaro â buddiannau gorau S4C, gael effaith andwyol ar enw ac ewyllys da S4C ac/neu oblygiadau'r cwmni o dan y cytundeb;

iv. **Gwarant cydymffurfiaeth**: disgwylir y bydd y Tendrwr llwyddiannus yn gwarantu y bydd yn darparu'r gwasanaethau yn unol â phob cyfraith berthnasol;

v. **Cyfrinachedd:** bydd y Tendrwr llwyddiannus yn defnyddio gwybodaeth gyfrinachol S4C at ddibenion cyflawni ei ddyletswyddau o dan y cytundeb yn unig ac ni fydd yn datgelu unrhyw wybodaeth gyfrinachol i unrhyw berson arall ac eithrio i'w staff neu i gydymffurfio ag unrhyw oblygiadau cyfreithiol;

vi. **Deddf Rhyddid Gwybodaeth**: disgwylir y bydd y Tendrwr llwyddiannus yn rhoi pob cymorth rhesymol i S4C er mwyn ei galluogi i ddelio ag unrhyw geisiadau a wneir yn unol â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000;

vii. **Cyfyngiadau atebolrwydd**: disgwylir na fydd unrhyw gyfyngiad ar atebolrwydd y Tendrwr llwyddiannus yn is na lefelau yswiriant y Tendrwr;

viii. **Hawliau terfynu**: disgwylir y bydd modd i S4C derfynu'r cytundeb ar roi 1 mis o rybudd. Bydd hefyd modd i S4C derfynu'r cytundeb yn syth lle bo'r Tendrwr llwyddiannus yn torri'n sylweddol unrhyw rai o'i ddyletswyddau, os na fydd unrhyw un o'i bersonél allweddol ar gael i ddarparu'r gwasanaeth, os bydd y Tendrwr yn cael ei ddirwyn i ben, os penodir derbynnydd dros asedion y Tendrwr, os daw'r Tendrwr i gyfaddawd gyda'i gredydwyr, os na fydd y Tendrwr yn medru talu ei ddyledion, os bydd y Tendrwr yn rhoi'r gorau i gynnal ei fusnes, neu os bydd unrhyw newid yn rheolaeth y Tendrwr;

ix. **Canlyniadau terfynu**: yn dilyn terfynu'r cytundeb, disgwylir na fydd dyletswydd ar S4C i wneud unrhyw daliadau i'r Tendrwr llwyddiannus oni bai am ar gyfer y gwaith a fydd wedi ei gyflawni; bydd y Tendrwr yn dychwelyd holl eiddo S4C i S4C; bydd y Tendrwr yn rhoi cymorth rhesymol i S4C er mwyn galluogi i S4C gwblhau'r gwaith o ddarparu'r gwasanaethau; a bydd y prif delerau a nodir uchod yn parhau mewn grym.

Dylid nodi mai at bwrpasau gwerthuso y mae S4C yn gofyn am y telerau ac amodau hyn yn unig. Mae S4C yn cadw'r hawl i negodi telerau'r cytundeb terfynol gyda'r Tendrwr llwyddiannus ac/neu i gynnig cytundeb ar yr amod bod y Tendrwr llwyddiannus yn amrywio un neu fwy o'i delerau safonol. Os na fydd cytundeb yn cael ei gwblhau'n foddhaol ar ôl dyfarnu'r tendr, mae S4C yn cadw'r hawl i ddyfarnu'r tendr i Dendrwr arall neu i ail-dendro'r gwasanaethau yn ôl ei disgresiwn.

### 6.4 Codau Ymarfer a Chanllawiau

Bydd yn rhaid i'r Tendrwr llwyddiannus gydymffurfio â'r codau ymarfer, y ddeddfwriaeth a'r canllawiau canlynol (ymhlith eraill):

- Deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch
- GDPR a Mesur Diogelu Data 2018
- Ymrwymiad Amrywiaeth S4C

Dylai pob Tendrwr gynnwys y gost o gydymffurfio â'r uchod (gan gynnwys cost cyngor priodol) yn y cais. Mae nifer o'r canllawiau hyn ar gael ar Wefan Cynhyrchu S4C sef http://www.s4c.cymru/cy/cynhyrchu/page/1154/canllawiau/.

### 6.5 Rhyddid Gwybodaeth

Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ("RhG") 2000 yn weithredol i S4C. Os bydd unrhyw Dendrwr o'r farn bod unrhyw wybodaeth a ddarperir ganddo i S4C yn sgil y gwahoddiad hwn, o natur gyfrinachol neu sensitif yn fasnachol, dylai'r Tendrwr nodi hynny yn benodol gan nodi'r rhesymau dros ystyried y fath wybodaeth yn wybodaeth sensitif. Bydd S4C yn ystyried hyn wrth benderfynu a fydd yn rhyddhau'r wybodaeth wrth ymateb i geisiadau RhG. Fodd bynnag, rhaid i ymgeiswyr dderbyn y bydd S4C yn rhyddhau gwybodaeth o'r fath os bydd yn cael cyngor cyfreithiol bod yn rhaid iddo wneud hynny er mwyn cydymffurfio gyda Deddf RhG. Mae S4C yn cadw'r hawl i benderfynu yn ei ddisgresiwn llwyr os yw unrhyw wybodaeth arbennig wedi ei eithrio rhag ei ddadlenni.

### 6.6 Diogelu Data

Trwy gyflwyno ymateb rydych yn cadarnhau eich bod wedi hysbysu pob unigolyn a adnabyddir yn yr ymateb tendr eich bod yn mynd i rannu eu data personol yn y modd hwn. Rydych yn cydnabod y bydd S4C yn prosesu'r holl wybodaeth bersonol a ddarparwyd fel rhan o'ch ymateb yn unol â Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol 2016 a Deddf Diogelu Data 2018. Mae Hysbysiad

Preifatrwydd S4C ar gael ar www.s4c.cymru, a byddwch yn hysbysu pob unigolyn y mae eu data personol yn cael ei ddarparu i S4C o'r cymal 6.6 hwn. Bydd S4C yn prosesu unrhyw ddata personol a ddarparwyd yn eich ymateb tendr ar y sail ei fod yn eich diddordeb dilys chi ac S4C i brosesu'r holl ddata sydd wedi'u ddarparu gennych fel rhan o'r ymateb tendr ar gyfer y pwrpas o werthuso'r ymateb i dendr.

**6.7 Cyfrinachedd a Chyhoeddusrwydd**

Trwy gyflwyno ymateb tendro, mae'r Tendrwyr yn cytuno cadw yn gyfrinachol unrhyw wybodaeth a ddatgelir neu a fydd ar gael i'r Tendrwyr gan S4C mewn unrhyw gyfrwng yn ystod neu mewn cysylltiad â'r broses dendro hon. Cytuna Tendrwyr i beidio defnyddio gwybodaeth o'r fath at unrhyw ddiben ac eithrio'r diben o baratoi'r ymateb tendro, ac i beidio datgelu gwybodaeth o'r fath i unrhyw unigolyn arall ac eithrio mewn ffordd gyfrinachol ac ar sail yr angen i'w gwybod, i'r unigolion hynny sy'n ymwneud â'r gwaith o baratoi'r ymateb tendro yn uniongyrchol. Ni fydd yr oblygiadau cyfrinachedd yn berthnasol i wybodaeth sydd eisoes yn gyhoeddus ar yr adeg y caiff ei datgelu.

Trwy gyflwyno ymateb i'r tendr mae Tendrwyr yn cytuno i sicrhau na fydd aelod(au) o'u staff yn gwneud datganiad cyhoeddus o unrhyw fath (gan gynnwys, heb gyfyngiad, drwy safleoedd gwe rhyngweithio cymdeithasol, megis Facebook neu Twitter neu fel arall) yn gysylltiedig â thestun y tendr hwn neu unrhyw benderfyniad S4C ynglylch unrhyw elfen o'r tendr hwn heblaw fod S4C wedi rhoi caniatâd ysgrifenedig o flaen llaw i'r fath gyfathrebiad.

**6.8 Ymwadiad**

Nid yw S4C yn cynnig unrhyw warant neu gyflwyniad ynghylch cyflawnder neu gywirdeb unrhyw wybodaeth yn y GID hwn ac mae unrhyw ddibyniaeth ar wybodaeth o'r fath ar eich risg eich hunain.

**6.9 Costau'r Tendr**

Mae pob Tendrwr yn gyfrifol am y costau a'r treuliau sydd yn daladwy mewn cysylltiad â'r broses tendro yma. Ni fydd S4C o dan unrhyw amod yn cyfrannu tuag at y fath gostau a threuliau.

**6.10 Diwygiadau i Ddogfennau Tendr**

Mae S4C yn cadw'r hawl i wneud newidiadau i'r dogfennau tendro cyn y dyddiad cau a nodir yng Ngham 1 4.1 uchod. Er mwyn galluogi ystyriaeth ar gyfer diwygiad o'r fath, gall S4C, yn unol â'i disgresiwn, ymestyn y dyddiadau a nodir yn Rhan 4.1 uchod.

**6.11 Hawlfraint**

Mae S4C yn berchen ar yr hawlfraint yn y GID ac unrhyw ddeunyddiau eraill a gyhoeddir neu a ddarparir gan S4C. Ni chaniateir i Dendrwyr gopïo, atgynhyrchu, defnyddio neu gyhoeddi copïau o'r GID neu ddeunyddiau o'r fath (neu unrhyw ran ohonynt) ac eithrio yn unol â'r graddau sy'n ofynnol er mwyn paratoi a chyflwyno'u hymatebion tendro.

**6.12 Dim cyd-gynllwynio**

Drwy gynnig ymateb i'r GID hwn, mae pob Tendrwr yn cadarnhau:

1. bod yr ymateb i dendr yn "bona fide" ac yn gystadleuol;

2. nad yw'r Tendrwr wedi gosod neu newid yr ymateb yn unol ag unrhyw gytundeb neu drefniant gydag unrhyw berson arall (heblaw yng nghyswllt consortiwm, gydag

aelodau eraill y consortiwm) nac wedi gofyn i unrhyw Dendrwr arall i wneud yr un peth; ac

3. nad yw'r Tendrwr wedi trafod neu ymgynghori ag unrhyw berson arall heblaw am S4C ynglyn â swm neu fras gyllideb neu bris ei ymateb i'r tendr, heblaw lle roedd y fath drafod neu ymgynghori yn gyfrinachol ac yn angenrheidiol er mwyn gwneud ymholiadau ynghylch premiwm yswiriant neu ddyfynbris ar gyfer paratoi'r ymateb i'r GID.

## 6.13 Ymddygiad Amhriodol

Os yw'r Tendrwr neu'r rheini sydd yn cynghori unrhyw Dendrwr yn gwneud unrhyw ymgais i ddylanwadu yn amhriodol ar y broses dendr hon neu'r penderfyniad i wobrwyo'r cytundeb mewn unrhyw ffordd, yna bydd gan S4C yr hawl i anghymwyso ymateb y Tendrwr yn nisgresiwn llwyr S4C. Os yw'r Tendrwr neu'r rheini sydd yn cynghori unrhyw Dendrwr yn gwneud unrhyw ymgais i ganfasio unrhyw un o weithwyr neu asiantau S4C yn gysylltiedig â'r broses gystadleuol hon neu yn gwneud ymgais i gael gwybodaeth gan unrhyw un o weithwyr neu asiantau S4C ynglŷn ag unrhyw sefydliad arall sydd yn tendro, yna bydd gan S4C yr hawl i anghymwyso ymateb y Tendrwr hwnnw yn nisgresiwn llwyr S4C.

## 6.14 Cyfraith Lywodraethol

Llywodraethir yr GID hwn gan gyfreithiau Cymru a Lloegr ac mae pob Tendrwr yn cytuno, trwy ddychwelyd ymateb tendro, ymrwymo i awdurdodaeth llwyr-gyfyngedig llysoedd Cymru a Lloegr.

**ATODIAD 1**

**Rheolau Sefydlog Bwrdd S4C**

(Gweler y ddogfen ynghlwm)

**ATODIAD 2**

**MATRICS GWERTHUSO**

| Sgôr | Categori | Proffil |
|---|---|---|
| 0 | Ymateb sero / Gwan iawn | Methwyd â mynd i’r afael â gofynion S4C neu does dim tystiolaeth wedi ei ddarparu i fynd i’r afael â gofynion S4C. |
| 1 | Gwan | Cynnig gwan o ran mynd i’r afael â gofynion S4C neu gyda thystiolaeth gwan i gefnogi y byddai’r cynnig yn cael ei gyflawni, sydd â bylchau mawr, nad yw’n argyhoeddi mewn sawl ffordd neu sydd â diffyg credadwyedd difrifol. |
| 2 | Llai na Boddhaol | Cynnig sy’n llai na boddhaol o ran mynd i’r afael â gofynion S4C neu sydd â thystiolaeth gefnogol lai na boddhaol, sydd â bylchau cymedrol neu sy’n amherthnasol neu’n methu ag argyhoeddi. |
| 3 | Boddhaol | Cynnig boddhaol o ran mynd i’r afael â gofynion S4C neu sydd â thystiolaeth foddhaol y byddai’r cynnig yn cael ei gyflawni ond sydd â mân fylchau neu sy’n methu ag argyhoeddi i raddau neu sydd â diffyg credadwyedd. |
| 4 | Da | Cynnig da i fynd i’r afael â gofynion S4C sydd â thystiolaeth dda i gefnogi y byddai’r cynigion yn cael eu cyflawni sy’n ddigonol (mewn termau ansoddol), yn argyhoeddi ac yn gredadwy. |
| 5 | Arbennig | Cynnig arbennig sy’n mynd i’r afael â ac yna’n rhagori ar ofynion S4C mewn ffordd y mae S4C yn ystyried sy’n cynnig ymarferoldeb, gwasanaethau neu safonau (fel sy’n berthnasol) ychwanegol sy’n gost-effeithiol ac y gellir eu cyflawni ac sydd â thystiolaeth arbennig i gefnogi y byddai’r cynigion yn cael eu cyflawni, sy’n gyson, cynhwysfawr a chymhellol. |

**ATODIAD 3**

**FFURFLEN WYBODAETH SYLFAENOL**

(Gweler y ddogfen ynghlwm)

**ATODIAD 4**

**STRWYTHUR CORFFORAETHOL S4C**

